# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2**

**Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Hydref 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-12.10)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd - rhan 1

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 51)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio - Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Craffu cyffredinol ar waith gweinidogol

Papur - Llywodraeth Cymru

**Egwyl** (10.30-10.40)

## 3 Craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd - rhan 2

(10.40-11.30)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio - Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol – Llywodraeth Cymru

**Egwyl** (11.30-11.40)

## 4 Cyfyngiadau Cyflymder 20 mya - Sesiwn Graffu gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(11.40-12.10) (Tudalennau 52 - 66)

Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth – Llywodraeth Cymru

Phil Jones, Cadeirydd y Tasglu 20 mya – Grŵp Tasglu 20mya

Kaarina Ruta, Cynorthwyydd Trafnidiaeth, Arweinydd 20mya – Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - polisi 20mya

## 5 Papurau i'w nodi (12.10)

### 5.1 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(Tudalennau 67 - 70)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Weinidog yr Economi a’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mewn perthynas â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Ymateb gan Weinidog yr Economi a’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion

Gwledig mewn perthynas â Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

**5.2 Cynllun Dychwelyd Ernes**

(Tudalennau 71 - 72)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn perthynas â'r cynllun dychwelyd ernes - cynnwys gwydr

**5.3 Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023**

(Tudalen 73)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023

**5.4 Datblygiadau gwynt ar y môr yn y môr Celtaidd**

(Tudalennau 74 - 75)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Lywodraeth y DU mewn perthynas â datblygiadau gwynt ar y môr yn y môr Celtaidd (Saesneg yn unig)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw

(12.10)

## Cyfarfod preifat (12.10-12.30)

## 7 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2, 3 a 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Papur tystiolaeth ar gyfer Craffu Cyffredinol gan y Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

26/10/2023

Gwybodaeth a ddarperir i gynorthwyo’r Pwyllgor cyn presenoldeb y Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog ar gyfer Craffu Cyffredinol ar 26 Hydref.

# Cynnwys

**Dŵr (gan gynnwys llygredd o garthffosiaeth)....................................4**

Gorlifoedd Storm Cyfun....................................4

Carthffosiaeth a dyfroedd ymdrochi....................................5

Niwtraliaeth o ran Maethynnau....................................6

Proses Adolygu Pris Dŵr 24 (PR24)....................................6

Systemau draenio cynaliadwy....................................7

**Natur a Bioamrywiaeth....................................9**

**Datgarboneiddio tai – sectorau tai cymdeithasol a phreifat.......... 11**

Tai Cymdeithasol....................................11

Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio....................................11

Safon Ansawdd Tai Cymru 2023....................................12

Cartrefi sy'n Eiddo Preifat....................................13

Rhaglen Cartrefi Clyd....................................14

Trywydd Datgarboneiddio Cartrefi....................................14

Hwb Perfformiad Carbon Sero Net Tai....................................15

**Gwastraff (gan gynnwys y Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr)....................................16**

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu....................................16

Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd....................................17

Diwygiadau ailgylchu yn y gweithle:....................................17

Tirlenwi (gostyngiad mewn gwastraff/dim gwastraff i safleoedd tirlenwi):....................................18

**Coedwigaeth....................................20**

Y Sefyllfa Ddiweddaraf....................................20

Camau gweithredu o Archwiliad Dwfn Coedwigaeth....................................20

Heriau....................................23

**Llifogydd....................................24**

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Cyffredinol....................................24

Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023-24....................................24

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru....................................25

Rhaglen Rheoli Llifogydd Naturiol....................................26

Adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-21 .......... 27

**Terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig .......... 28**

Cefndir .......... 28

Y sail dystiolaeth .......... 29

Yr wythnosau cyntaf gyda'r terfyn cyflymder newydd a'r camau nesaf .......... 30

Monitro pellach .......... 31

# Dŵr (gan gynnwys llygredd o garthffosiaeth)

## Gorlifoedd Storm Cyfun

1. Mae gorlifoedd storm cyfun yn darparu pwynt rhyddhad rheoledig ar adegau o law trwm. Gyda digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn digwydd, maent yn chwarae rhan hanfodol wrth leihau'r risg o garthffosydd yn gorlifo i gartrefi a mannau cyhoeddus, gan atal carthion rhag gorlifo i cartrefi a busnesau.
2. Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gosod rheolaethau rheoliadol tynn dros nifer a chyfaint gollyngiadau o orlifoedd storm cyfun. Mae CNC yn rhoi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau o orlifoedd storm cyfun sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr sicrhau mai'r unig bryd maent yn weithredol yw yn ystod glaw trwm, pan fydd carthffos wedi gorlenwi gan beri risg y bydd carthion yn gorlifo i eiddo. Pan fydd cwmnïau dŵr yn methu â chydymffurfio ag amodau eu trwydded, neu'n gweithredu heb drwydded, bydd CNC yn ymchwilio a, lle bo'n briodol, yn cymryd camau gorfodi.
3. Mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wedi gosod offer monitro hyd digwyddiadau ar eu hasedau gorlif storm, sy'n casglu gwybodaeth am hyd a lleoliad gorlifiadau storm. Mae data monitro hyd digwyddiadau ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar wefan y cwmni dŵr priodol.
4. Mae gorlifoedd storm cyfun nad ydynt yn torri amodau trwyddedau ond sy'n bodloni'r meini prawf fel rhai sy'n gorlifo'n aml yn cael eu hasesu o dan raglen Fframwaith Asesu Gorlif Storm, lle mae'n ofynnol i Dŵr Cymru ymchwilio a gwella perfformiad y gorlifoedd storm cyfun hyn. Mae gollyngiadau sylweddol yn destun asesu i benderfynu a ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd ac i benderfynu as yw'n bosibl lleihau amlder y gollyngiadau yn dilyn asesiad cost a budd. Mae data monitro hyd digwyddiadau'n cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu buddsoddiad i uwchraddio gorlifoedd storm fel rhan o'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol sy'n rhan o Gynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru ym mhob cyfnod adolygu prisiau.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda sawl partner gan gynnwys CNC a chwmnïau dŵr i greu strategaethau hirdymor i leihau llygredd o orlifoedd storm cyfun. Er enghraifft, rhwng 2020 a 2025 bydd Dŵr Cymru'n buddsoddi £101 miliwn i uwchraddio ei rwydwaith rheoli dŵr gwastraff i leihau gollyngiadau i ddyfrffyrdd fel rhan o becyn buddsoddi ehangach o £765 miliwn i ddiogelu'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi £42m yn y Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm, a fydd yn blaenoriaethu asedau dŵr gwastraff i'w gwella, er mwyn lleihau nifer a chyfaint gollyngiadau dŵr storm i'r amgylchedd.
6. Anaml iawn, os o gwbl, y mae gorlifoedd storm cyfun newydd yn cael eu creu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud systemau draenio cynaliadwy yn orfodol ar bron pob datblygiad

adeiladu newydd. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith trwy ailgyfeirio ac arafu mynediad dŵr wyneb i'r system garthffosydd. Bydd yn helpu i sicrhau'r defnydd o orlifoedd storm fel dewis olaf yn unig.

7. Fel rhan o Gynllun Gweithredu Rheoleiddio Amgylcheddol ar gyfer Gorlifoedd Storm Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru, cyflogodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghorwyr amgylcheddol Stantec i gynnal asesiad annibynnol o bolisïau presennol Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy sy'n ymwneud â rheoli gorlifoedd storm cyfun ac archwilio opsiynau polisi amgen. Canlyniad hyn yw Adroddiad Tystiolaeth Gorlifoedd Storm Cymru, a gaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

## Carthffosiaeth a dyfroedd ymdrochi

8. Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel lle â rhai o'r traethau gorau gydag ansawdd dŵr rhagorol yn Ewrop. Ar hyn o bryd mae gan Gymru 109 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig, y mwyafrif mewn safleoedd arfordirol.

9. Yn 2022, roedd 99% o ddyfroedd ymdrochi dynodedig ledled Cymru yn bodloni safonau ansawdd dyfroedd ymdrochi llym, gydag 85 o'r 106 o ddyfroedd ymdrochi yn sicrhau'r dosbarthiad uchaf, 'rhagorol'. Mae disgwyl canlyniadau 2023 yn ddiweddarach eleni.

10. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden a chryfhau gwaith monitro ansawdd dŵr. Sbardun pennaf yr ymrwymiad yw gwella ansawdd dŵr mewndirol yng Nghymru gan efelychu llwyddiant dyfroedd ymdrochi arfordirol.

11. Rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2023, derbyniodd Cymru 148% o'i glawiad cyfartalog tymor hir, a arweiniodd at rai gorlifoedd storm cyfun yn gweithredu ger ein safleoedd dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Rydym yn deall y pryder y gallai hyn fod wedi'i achosi i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r ardaloedd hyn at ddibenion hamdden yn ystod anterth y tymor dyfroedd ymdrochi.

12. Mae gollyngiadau gorlifoedd storm cyfun yn cael eu rheoleiddio gan CNC ac maent yn rhan angenrheidiol o'r system garthffosiaeth bresennol, gan atal carthion rhag gorlifo i gartrefi a busnesau. Serch hynny, rydym yn cydnabod y risg o lygredd ynghlwm wrth orlifoedd storm cyfun, ac rydym yn cymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â gorlifiadau fel rhan o'n dull cyfannol o wella ansawdd dŵr fel y nodir uchod.

## Ffynonellau llygredd

13. Bu sylw eang yn y cyfryngau nid yn unig yn ddiweddar ond trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf a mwy am ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion i ddyfrffyrdd. Mae canfyddiad eang mai dyma yw prif achos ansawdd dŵr gwael. Fodd bynnag, mae tystiolaeth dosraniad ffynonellau yn

dangos bod nifer o ffactorau'n cyfrannu at ansawdd dŵr gwael – yn eu plith llygredd amaethyddol, cysylltiadau draenio preifat diffygiol a thanciau septig yn eu plith.

14. Y llynedd, yn y Gynhadledd gyntaf i drafod Llygredd Afonydd daeth rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, datblygwyr, llywodraeth leol, undebau ffermio, y byd academaidd a chyrff amgylcheddol ynghyd i drafod datblygu dull strategol a chydgysylltiedig o ymdrin â llygredd afonydd. Er mwyn helpu i nodi datrysiadau, datblygwyd cynllun modelu dosraniad ffynonellau gan CNC a Dŵr Cymru i helpu i nodi'r gyfran o lygredd ffosffad y mae modd ei briodoli i bob sector ym mhob un o ddalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), gyda defnydd tir gwledig yn brif gyfrannwr. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach yr angen am ddull amlsector 'Tîm Cymru' o wella ansawdd dŵr.

## Niwtraliaeth o ran Maethynnau

15. Ar 29 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i hwyluso adeiladu tai trwy ddiwygio deddfwriaeth yr UE ynghylch niwtraliaeth o ran maethynnau, trwy welliant i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

16. Gwrthodwyd y cynlluniau hyn mewn pleidlais yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 13 Medi. Fodd bynnag, mae hon yn sefyllfa sy'n datblygu: mae Llywodraeth Cymru'n dal i geisio deall yn union beth fyddai goblygiadau cynlluniau Llywodraeth y DU i Gymru, yn enwedig i'n dalgylchoedd trawsffiniol, pe bai Llywodraeth y DU yn ceisio symud eu cynlluniau ymlaen drwy fil amgen.

17. Yng Nghymru, yn y cyfamser, rydym wedi bod yn glir nad oes gennym unrhyw fwriad i lacio ein mesurau amddiffyn amgylcheddol yn y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio'i wneud. Mae ein hymrwymiad i iechyd ein hafonydd yn parhau'n gadarn, ac rydym yn glir na fydd unrhyw safonau amgylcheddol yn cael eu llacio yma.

18. Yn gynharach eleni, cynhaliodd y Prif Weinidog yr ail gynhadledd ar heriau llygredd ffosfforws yng Nghymru ac, o ganlyniad, mae partneriaid allweddol – ar draws y sectorau dŵr, tai, cynllunio ac amaethyddol – wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu. Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu, amserlenni a chyfrifoldebau clir i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr, a mynd i'r afael â chyfyngiadau cynllunio.

19. Cynhelir y gynhadledd nesaf i drafod llygredd afonydd ar 30 Tachwedd, lle byddwn yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu ac yn parhau â'r ddeialog agored gyda'r holl sectorau allweddol o amgylch y bwrdd.

## Proses Adolygu Pris Dŵr 24 (PR24)

20. Fel rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, mae Ofwat yn cynnal adolygiad prisiau statudol bob pum mlynedd. Mae'r Adolygiad Pris hwn yn pennu biliau dŵr ac yn

cytuno ar gynlluniau busnes cwmnïau dŵr a buddsoddiad mewn seilwaith a gwasanaethau, ac amcanion amgylcheddol dros y cyfnod.

21. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ofwat i sicrhau bod fframwaith adolygu prisiau i Gymru yn cyd-fynd â fframwaith deddfwriaethol a pholisi Cymru.

22. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat. Cadarnhaodd y ddogfen allweddol hon ein blaenoriaethau, ein hamcanion a'n disgwyliadau strategol ar gyfer Ofwat wrth iddo benderfynu ar flaenoriaethau cwmnïau dŵr a chynlluniau busnes ar gyfer PR24. Mae'n nodi blaenoriaethau allweddol sy'n ymwneud ag argyfyngau hinsawdd, yr amgylchedd, gwydnwch, iechyd asedau, a fforddiadwyedd i gwsmeriaid lle rydym yn disgwyl i Ofwat herio neu annog cwmnïau dŵr i gyflawni.

23. Mae cyfranwyr allweddol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Ofwat, cwmnïau dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Arolygiaeth Dŵr Yfed a grwpiau herio annibynnol – wedi cynnull Fforwm PR24 i gyflawni dull cydweithredol ymhlith y llywodraeth, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid ehangach.

24. Mae Fforwm PR24 wedi darparu canllawiau strategol ar y deilliannau lefel uchel a fydd yn arwain ac yn llywio datblygiad Strategaethau Cyflenwi a Chynlluniau Busnes Tymor Hir PR24 cwmnïau dŵr ac yn rhoi barn ar y blaenoriaethau ar gyfer y sector yng Nghymru.

25. Ar 2 Hydref, cyflwynodd cwmnïau dŵr eu cynlluniau busnes drafft i Ofwat, ac mae'r rhain ar gael ar-lein. Bydd Ofwat yn craffu ar y cynlluniau'n ofalus yn awr cyn cyhoeddi penderfyniadau drafft yn ystod haf 2024.

## Systemau draenio cynaliadwy

26. Mae systemau draenio cynaliadwy'n disgrifio dull o reoli dŵr wyneb. Yn wahanol i ddraeniad pibell confensiynol, nod systemau draenio cynaliadwy effeithiol yw trin dŵr wyneb fel adnodd, gan geisio cadw dŵr yn agos at ei ffynhonnell ar wyneb y tir, ac i ddynwared prosesau draenio naturiol trwy ddefnyddio'r dirwedd a llystyfiant naturiol i reoli llif a chyfaint dŵr wyneb.

27. Ers mis Ionawr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud systemau draenio cynaliadwy'n orfodol ar bron pob datblygiad adeiladu newydd. Mae systemau draenio cynaliadwy wedi bod yn ofyniad i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yng Nghymru. Rhaid i'r systemau draenio cynaliadwy gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r safonau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

28. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddeddfu i gryfhau'r gofynion ar gyfer defnyddio systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt.

29. Yn 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Arup i gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth a chanllawiau systemau draenio cynaliadwy. Cyhoeddwyd hwn ym mis Gorffennaf 2023. Rydym bellach yn ystyried argymhellion a thystiolaeth yr adolygiad hwnnw'n ofalus.

# Natur a Bioamrywiaeth

30. Mae Cymru, ynghyd â gweddill y byd, yn wynebu argyfwng natur gyda cholledion bioamrywiaeth yn cyflymu'n fyd-eang ar gyfraddau digynsail. Yng Nghymru, mae un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu. Rhoddais groeso i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang uchelgeisiol y cytunwyd arno yn COP15, ond mae gweithredu'n allweddol os yw'r targedau hyn i gyflawni eu diben.

31. Mae 30x30 yn rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a thrwy Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfres o argymhellion sy'n canolbwyntio ar y camau allweddol y mae angen i ni eu cymryd i gyflawni'r targed hwn. Yn ganolog i hyn mae ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur, sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith o safleoedd daearol, dŵr croyw a morol gwarchodedig. Rydym yn cynyddu capasiti cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd hefyd fel ein bod ni'n gallu adfer mwy o fawndiroedd ledled Cymru.

32. Rydym wedi cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid allweddol ynghylch proses dynodi Parthau Cadwraeth Morol. Roedd hyn er mwyn helpu i lywio diffiniad pellach o safleoedd Parthau Cadwraeth Morol o fewn y pum maes chwilio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddynodiadau cyn diwedd tymor y llywodraeth hon.

33. Mae'r Fframwaith Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn nodi egwyddorion rheoli strategol ac yn rheoli Cynllun Grant Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Hyd yma, mae prosiectau sy'n amrywio o fodelu newid hinsawdd, sbwriel morol a llai o darfu ar adar môr a mamaliaid morol wedi cael eu hariannu fel rhan o'r cynllun hwn. Gan gydnabod yr angen i gyd-fynd â pholisïau eraill, ac ar gyfer dull strategol ehangach, rwyf wedi ymrwymo i adolygu'r Fframwaith a sut mae'n cefnogi ein rhwymedigaethau rheoli rhwydwaith.

34. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i Fil i gyflwyno corff llywodraethu amgylcheddol a thargedau natur statudol. Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu targedau ategu'r rhai sydd gennym eisoes ar waith yng Nghymru a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae disgwyl i bapur gwyn gael ei gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2024.

35. Ochr yn ochr â'r Bil, byddwn yn adolygu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur hefyd a fydd yn amlinellu dull Cymru o gyflawni targedau newydd y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, yn egluro'r trefniadau llywodraethu ac yn sefydlu gofynion adrodd cynnydd i sicrhau y darperir cynllun gweithredu mewn modd tryloyw ac effeithiol.

36. Yn ogystal â'r uchod, mae Llywodraeth Cymru'n gwneud gwaith ehangach i fynd i'r afael â'r pwysau sy'n parhau i sbarduno colli bioamrywiaeth, fel gwella ansawdd dŵr, lleihau llygredd amaethyddol

a mynd i'r afael â lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Mae hyn yn cynnwys cynllun ailgylchu cyfarpar pysgota diwedd oes yng Nghymru sydd wedi'i ehangu ers cwblhau'r cynllun peilot yn llwyddiannus. Mae 10 harbwr yn cymryd rhan yn y cynllun erbyn hyn, ac wedi casglu dros bum tunnell o wastraff i'w ailgylchu, a allai fod wedi'i waredu yn y môr fel arall ac amharu ar fywyd morol.

# Datgarboneiddio tai – sectorau tai cymdeithasol a phreifat

## Tai Cymdeithasol

### Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

37. O ran cyllid, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i flaenoriaethu buddsoddiad mewn datgarboneiddio tai cymdeithasol drwy gyllid sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Lansiwyd y rhaglen yn 2021 ac roedd yn gronfa gystadleuol i ddechrau, gan dderbyn ac asesu ceisiadau gan landlordiaid cymdeithasol.
38. Yn 2022/23, ar ôl tair rownd o gynnig ar sail gystadleuol, newidiwyd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i ddull cyllido fformiwla, gan sicrhau bod cyllid ar gael i bob landlord cymdeithasol. Ym mlwyddyn gyntaf y dull cyllido fformiwla, dyrannwyd £60 miliwn i landlordiaid cymdeithasol (gyda £54m ohono'n cael ei ddefnyddio) a chadarnhawyd £70 miliwn o gyllid ar gyfer eleni gyda £70 miliwn arall o gyllid dangosol yn 2024/25, gan ddarparu ymrwymiad hirdymor i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru.
39. I ddechrau, y buddsoddiad targed mewn cartrefi cymdeithasol oedd £220 miliwn dros gyfnod y llywodraeth, gyda thua £120 miliwn wedi'i fuddsoddi hyd yma. Mae ein dull gweithredu diwygiedig, a chyllid ychwanegol, yn gwella cyllideb gyffredinol y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i oddeutu £260 miliwn.
40. Mae sianelu buddsoddiad Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio drwy landlordiaid cymdeithasol yn cefnogi dull dysgu o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn ogystal â gwerthuso agweddau technegol a thenantiaid y gwaith, bydd costau gwirioneddol yn cael eu monitro a'u defnyddio yn rhagdybiaethau modelau datgarboneiddio cartrefi yn y dyfodol. Drwy symud i ddull cyllido fformiwla, rydym yn gweithio i sicrhau bod y sector tai cymdeithasol cyfan yn cymryd rhan yn y rhaglen ac yn cefnogi cynyddu gweithgarwch datgarboneiddio ar draws y sector.
41. Yng Nghymru, mae gennym hanes cryf o weithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i'n haelwydydd a'n cymunedau mwyaf bregus. Rydym yn defnyddio'r cysylltiadau hynny y gellir ymddiried ynddynt i sicrhau, mewn marchnad newydd sy'n esblygu'n gyflym, ein bod ni'n gallu sicrhau ein hunain o ansawdd a phriodoldeb ymyriadau. Mae gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol yn gyntaf yn helpu i gefnogi twf y sylfaen sgiliau hefyd ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r deunyddiau diogel a'r cadwyni cyflenwi sydd eu hangen i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru yn gyflym ac ar raddfa eang.

## Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

42. Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn 2002 i osod y safon ar gyfer y 230,000 o gartrefi cymdeithasol yng Nghymru, ac mae wedi bod yn annog landlordiaid cymdeithasol i wella effeithlonrwydd ynni ers dros 20 mlynedd.

43. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £2 biliwn o gyllid ers 2004 i gefnogi rhaglen wreiddiol SATC, sydd wedi gwella a chynnal ansawdd cartrefi cymdeithasol ledled Cymru yn sylweddol. Mae'r targed SAP 65 (EPC D) presennol wedi bod ar waith ers 2008 ac, ar 31 Mawrth 2022, roedd yr holl stoc tai cymdeithasol yn bodloni'r safon.

44. Mae SATC, sydd wedi pontio chwe gweinyddiaeth hyd yma, yn enghraifft o'r ffordd y gall Llywodraethau arddel safbwynt hirdymor: buddsoddi mewn polisïau a rhaglenni tymor hir. Mae hyn wedi arwain at godi safon tai cymdeithasol yng Nghymru o gymharu â thai mewn sectorau eraill.

45. Mae'r 2020au wedi gweld newid cyflym yn y ffordd y mae pobl yn byw, yn teimlo am gartref, a'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl ohono. O ystyried lefelau uchel cyflawni'r safonau presennol, roedd fersiwn newydd o'r safon SATC yn teimlo'n angenrheidiol ac yn amserol i adlewyrchu hyn. Ymgynghorwyd ar safon newydd yn ystod 2022 a chasglwyd ymatebion cynhwysfawr gan y sector tai cymdeithasol, arbenigwyr a thenantiaid.

46. Mae'r cynigion ar gyfer SATC 2023 yn cyflwyno mwy o elfennau effeithlonrwydd ynni na'r safon flaenorol a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddiweddaru eu heiddo i gyflawni allyriadau carbon sero net yn ogystal â gwneud cartrefi'n fforddiadwy i'w gwresogi. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi diweddaru'r gofynion ac wedi mireinio'r safon, a byddaf yn ei lansio mewn datganiad llafar i'r Senedd ar 24 Hydref 2023. Mae dadansoddiad o'r ymgynghoriad a'n hymateb polisi i'w gweld yma: Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 | LLYW. CYMRU.

47. Mae SATC yn cyd-ddigwydd â'r gofynion a sefydlwyd yn 2021, wrth gwrs, pan gyhoeddwyd safon Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru newydd ar gyfer adeiladau newydd, sy'n cynnwys gofyniad am EPC A gyda systemau gwresogi a dŵr poeth tanwydd di-ffosil ar gyfer tai cymdeithasol a ariennir gan grant. Mae'r safon yn mynnu dull 'ffabrig yn gyntaf', gan osod isafswm safon perfformiad thermol, ynghyd ag asesiad o risg gorboethi. Mae hyn wedi sicrhau bod Cymru'n arwain y ffordd at y cartrefi di-garbon net sydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

48. Cyflwynwyd Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth o'r Rhaglen Tai Arloesol, ac mae hynny, ynghyd â'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, wedi llywio diweddariad Safon Ansawdd Tai Cymru.

## Cartrefi sy'n Eiddo Preifat

49. O ran cartrefi sy'n eiddo preifat, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried camau cychwynnol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru ar brosiect peilot ar gyfer y sector perchen-feddianwyr sy'n edrych ar fenthyciadau ar gyfer y rhai sydd â'r 'gallu i dalu'. Rydym yn aros am benderfyniad cyllido i gefnogi'r cynllun peilot.

50. Mae prosiect arall i gefnogi landlordiaid preifat i ddatgarboneiddio eu heiddo, sy'n cysylltu â Chynllun Lesio Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae cartrefi sy'n ymuno â Chynllun Lesio Cymru fel rhan o'r prosiect yn gymwys i gael cyllid grant i wella effeithlonrwydd ynni'r eiddo fel rhan o'r Cynllun hwnnw.

51. Mae datgarboneiddio a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru ar draws pob deiliadaeth, a sut i ariannu hyn, yn gymhleth. Mae heriau sylweddol o ran y seilwaith sydd ei angen, a'r cyllid. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio dulliau gweithredu.

52. Mae yna effeithiau ehangach sydd angen eu hystyried hefyd. Er enghraifft, nid yw'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni sy'n berthnasol yn y sector rhentu preifat yn fater datganoledig. Yn ei araith ddiweddar, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth y DU yn cael gwared ar bolisïau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid uwchraddio effeithlonrwydd ynni yn eu cartrefi.

53. Yn 2020, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion a fyddai (pe byddent wedi'u cyflwyno) wedi mynnu na fyddai tenantiaethau newydd ond yn bosibl mewn eiddo gyda Thystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) o C neu uwch ar ôl 2025, ac y byddai hyn yn berthnasol i denantiaethau presennol o 2028 ymlaen hefyd. Mae'r ddau bolisi wedi cael eu dileu bellach.

54. Gyda dros 64% o Dai Rhent Preifat yng Nghymru wedi eu graddio yn EPC D neu is, a gyda'r mwyafrif wedi cael eu hadeiladu cyn 1930, mae angen dybryd i wella effeithlonrwydd ynni sector Rhentu Preifat Cymru.

55. Mae'r ffaith fod Llywodraeth y DU yn dileu eu newidiadau arfaethedig ar gyfer landlordiaid preifat, ac unrhyw gymorth posibl i'r sector, yn gam sylfaenol yn ôl o ran cyflawni amcanion di-garbon ond hefyd o ran cefnogi swyddi a gwella amodau byw. Yn benodol, fel modd o daclo biliau ynni ar gyfer llawer o aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd neu'n byw mewn cartrefi oer a drafftiog.

56. Ers ymgynghoriad gwreiddiol Llywodraeth y DU ar newidiadau arfaethedig, mae dwy flynedd wedi mynd heibio heb unrhyw eglurder na phenderfyniad ar gyfer y sector, sydd wedi peri i'r dyddiad 2025 fod yn anodd ei gyflawni. Ond yn hytrach na gwthio'r dyddiadau yn ôl, fel mae'r Prif Weinidog wedi penderfynu'i wneud ar gyfer cerbydau tanwydd ffosil, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu dileu'r gofyniad yn llwyr.

57. Mae angen i ni ystyried ein hymateb i'r camau hyn gan Lywodraeth y DU yn awr.

## Rhaglen Cartrefi Clyd

58. Rydym yn cydnabod natur gydgysylltiedig yr her o ddatgarboneiddio cartrefi a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Rydym yn gweithio i sicrhau cydlyniad ar draws y meysydd polisi hyn. Fel y cyhoeddais yn fy natganiad llafar ar raglen Cartrefi Clyd (Mehefin 2023), rydym yn caffael gwasanaeth newydd ar hyn o bryd sy'n cael ei arwain gan alw, er mwyn sicrhau parhad a chynorthwyo'r rhai sy'n cael y trafferth mwyaf i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw. Fodd bynnag, er y bydd hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw i ddechrau, ni fydd yn eithrio mentrau sy'n seiliedig ar ardal. Bydd camau'r dyfodol yn dysgu gwersi o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a mentrau tai eraill yng Nghymru i ddatblygu dull integredig ar draws pob deiliadaeth a lefel incwm mewn dull sy'n seiliedig ar ardal i sbarduno datgarboneiddio. Bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn cyfrannu at gyflawni Cymru sero net erbyn 2050 ac yn galluogi trosglwyddiad cyfiawn yn uniongyrchol drwy'r ddau amcan o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd. Ein huchelgais hirdymor yw gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r ynni sydd ei angen yn unig, i gadw cartrefi'n glyd am gost fforddiadwy.

### Trywydd Datgarboneiddio Cartrefi

59. Gofynnais i'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio arwain a chydlynu gwaith i lunio trywydd datgarboneiddio cartrefi. Fel y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi clywed eisoes, mae'r Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio wedi ystyried datblygu'r trywydd. Yn ystod sawl cyfarfod misol ers mis Ionawr 2023, maent wedi penderfynu ar y meysydd sydd angen eu hystyried a'u datblygu gyda rhanddeiliaid ehangach. Maent wedi bod yn gweithio hefyd i nodi'r rhanddeiliaid amrywiol sydd angen eu cynnull i drafod a datblygu'r pynciau hyn ymhellach.

60. Bydd angen cydlynu gwaith y trywydd datgarboneiddio cartrefi gyda datblygiadau strategol allweddol eraill. Mae cyhoeddi'r Strategaeth Wres a'r ymgynghoriad ar hynny yn arbennig o bwysig. Bydd cyfres o gynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu fel rhan o'r gwaith hwn ac mae'r gorgyffwrdd rhwng y cynllun gweithredu ar gyfer elfen ddomestig y Strategaeth Wres a'r gwaith o lunio'r trywydd yn allweddol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyd-drefnu i sicrhau nad oes dyblygu na diffyg cysylltiad rhwng y ffrydiau gwaith hyn. Mae gwaith cynllunio'n cael ei wneud, cyn sesiwn gychwynnol gyda rhanddeiliaid (sydd wedi'i threfnu ar gyfer dechrau mis Tachwedd).

## Hwb Perfformiad Carbon Sero Net Tai

61. Er mwyn darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i bawb sy'n ymwneud â datgarboneiddio cartrefi, buddsoddwyd mewn Hwb Perfformiad Carbon Sero Net Tai hefyd. Mae'r 'Hwb' yn dwyn arweiniad arbenigol ynghyd ar bob agwedd ar ddatgarboneiddio cartrefi ar sail 'er lles'. Yn y lle cyntaf, bydd yr Hwb yn galluogi landlordiaid cymdeithasol i gael gafael ar gyngor arbenigol, ymchwil a datblygu, canllawiau deunyddiau, caffael ac arfer gorau. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr Hwb yn ehangu i helpu landlordiaid preifat a pherchnogion tai hefyd. Bydd gan yr Hwb ardaloedd mynediad am ddim a fydd yn helpu landlordiaid preifat a pherchnogion tai i ddeall sut i ddatgarboneiddio eu cartrefi gan ddefnyddio astudiaethau achos a gwersi o ddatgarboneiddio tai cymdeithasol. Bydd ar gael heb unrhyw gost ychwanegol, a bydd yn datblygu ochr yn ochr â'r ardaloedd a ddatblygwyd ar gyfer y sector tai cymdeithasol (y bydd angen ymaelodi a mewngofnodi i'w cyrchu)). Ar sail yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y wefan gychwynnol bydd cynnwys ar gael o fis Ionawr 2024 ymlaen, gyda'r cyngor a'r arweiniad mynediad agored ar gael o fis Gorffennaf 2024 ymlaen. Bydd yr Hwb yn cysylltu â ffynonellau gwybodaeth eraill hefyd ac yn tynnu sylw atynt (megis Gweithredu ar Hinsawdd Cymru) ac yn cynnwys dolenni i adnoddau eraill yn y DU.

# Gwastraff (gan gynnwys y Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr)

62. Nod ein strategaeth economi gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*, yw cynyddu effeithlonrwydd adnoddau yn gyffredinol: defnyddio adnoddau a deunyddiau cyhyd ag y bo modd ac osgoi gwastraff. Mae economi gylchol yn ganolog i'n hymdrechion i leihau allyriadau carbon a helpu i wrthdroi colli bioamrywiaeth – mae'n hanfodol i'n hymrwymiad i leihau ein heffaith ar adnoddau naturiol yn fyd-eang yn ogystal ag yma yng Nghymru. Yn ogystal â pharhau i wella ailgylchu, rydym yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gweithredu o leihau'r allyriadau o safleoedd tirlenwi i leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y lle cyntaf – drwy ein rhaglen ailddefnyddio ac atgyweirio, ffocws ar leihau gwastraff bwyd, a'n hymwneud â'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes.
63. Mae diweddariad am rai o'r rhaglenni gwaith cyfredol allweddol yn dilyn:

### Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu

64. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu datblygu ar raglen pedair gwlad ar y cyd ledled y DU, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei arwain gan Lywodraeth y DU.
65. Mae'r broses o weithredu'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer diwygio deunydd pecynnu ledled y DU wedi'i ohirio am 12 mis. Bydd hyn yn caniatáu amser ychwanegol i gael trefniadau gweithredol y cynllun yn iawn drwy ymgysylltu ymhellach â'r sector pecynnu ac awdurdodau lleol.
66. Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar y rheoliadau i brofi eu hymarferoldeb, a bydd yn cau ym mis Hydref.
67. Cyflwynwyd rheoliadau newydd ledled y DU yn ystod hanner cyntaf 2023 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr pecynnu adrodd data ar gyfaint y deunydd pecynnu, a'r mathau, y maent yn eu rhoi ar y farchnad. Yn ogystal, cynhaliwyd ymarfer casglu data cost gydag awdurdodau lleol yn ystod haf 2023. Bydd y ddwy set ddata hyn yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r ffioedd y mae angen i gynhyrchwyr eu talu a'r taliadau y bydd awdurdodau lleol yn eu derbyn ym mlwyddyn gyntaf y cynllun pan fydd ar waith, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2025/26 erbyn hyn.
68. Rydym yn disgwyl cael allbynnau cyntaf y cyfrifiadau cost a thaliadau ym mis Tachwedd. Yna byddwn yn dechrau ar gyfnod o ymgysylltu ac asesu i ddeall yn llawn y symiau tebygol y bydd cynhyrchwyr yn eu talu a'r hyn y bydd awdurdodau lleol yn ei dderbyn.

69. Mae gwaith yn parhau ar ddyluniad y sefydliad a fydd yn cael ei sefydlu i weithredu'r cynllun. Bydd angen rôl i Awdurdodau Lleol wrth lywodraethu a gweithredu'r cynllun i sicrhau llif teg o arian i Awdurdodau Lleol a bod y cynllun yn cefnogi trosglwyddo'r sector pecynnu i economi gylchol carbon isel.

## Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cynwysyddion Diodydd

70. Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i osod amodau ar gais gan Lywodraeth yr Alban i eithrio cynllun yr Alban o weithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU wedi arwain at ohirio cynllun yr Alban. Bellach maent yn bwriadu cyflwyno eu cynllun nhw i gyd-fynd â'n llinell amser ni. Roedd hyn yn siom fawr gan y byddai gweld cynllun yr Alban ar waith wedi caniatáu i wersi gwerthfawr gael eu dysgu ar gyflwyno a gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes yn y DU.

71. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried goblygiadau'r penderfyniad gan Lywodraeth y DU ar ddyluniad ein cynllun ni. Rydym yn gytûn ar y rhan fwyaf o agweddau heblaw am un eithriad nodedig, sef cynnwys poteli gwydr yn y cynllun yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth hwn o ran cwmpas yn ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i wneud tro pedal ar gwmpas cyffredin y cytunwyd arno'n flaenorol, a thynnu gwydr allan o'r cynllun yn Lloegr.

72. Mae canlyniadau'r penderfyniad hwn gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU wedi arwain at waith ychwanegol i fynd i'r afael â chwestiynau ynghylch rhyngweithrededd rhwng yr holl genhedloedd, ac mae hynny wedi golygu oedi i'r amserlen ar gyfer rheoliadau'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Cyhoeddwyd dyddiad rhoi'r drefn ar waith ym mis Hydref 2025, ond mae hyn yn destun adolygu.

73. Cynhaliwyd Cynllun Dychwelyd Ernes peilot digidol yn Aberhonddu dros yr haf, ac mae'n parhau tan fis Hydref. Rydym yn ddiolchgar am waith rhagorol a chyfraniad y tîm o Bowys sy'n cefnogi'r cynllun peilot ac ymgysylltiad y cyhoedd. Bydd y gwersi o'r cynllun peilot yn cael eu rhannu pan fydd y gwerthusiad gan WRAP Cymru wedi'i gwblhau.

## Diwygiadau ailgylchu yn y gweithle:

74. O 6 Ebrill 2024 ymlaen, yn amodol ar ewyllys y Senedd, bydd yn dod yn gyfraith i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol yn yr un modd ag y mae deiliaid tai eisoes yn ei wneud ledled y rhan fwyaf o Gymru.

75. Rydym yn cyflwyno'r diwygiadau hyn i wella ansawdd a chyfanswm yr ailgylchu sy'n cael ei gasglu o weithleoedd ledled Cymru, ac i sicrhau dull cyson o'i reoli.

76. Mae'r diwygiadau ailgylchu yn y gweithle yn adeiladu ar lwyddiant ailgylchu aelwydydd Cymru, lle mae ein cyfradd ailgylchu uchel yn

arwain y byd. Mae eisoes yn arbed tua 400,000 tunnell o garbon bob blwyddyn ac yn darparu deunyddiau pwysig yn ôl i'r economi.

77. Wrth gyflwyno'r dull hwn i'n gweithleoedd, byddwn yn lleihau allyriadau carbon, yn lleihau gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi neu i'w losgi ac yn cynhyrchu mwy o gyflogaeth a buddsoddiad yn y sector, gan gadw deunyddiau ailgylchu o ansawdd uchel yn economi Cymru i wella effeithlonrwydd adnoddau.

78. O'r herwydd, mae'r diwygiadau hyn, sy'n cael eu cefnogi gan fwy na thri chwarter y cyhoedd yn ein harolwg diweddaraf, yn gam allweddol tuag at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, a symud ymlaen tuag at economi gryfach, wyrddach yn unol â'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu.

## Tirlenwi (gostyngiad mewn gwastraff/dim gwastraff i safleoedd tirlenwi):

<u>Lleihau / Atal gwastraff bioddiraddadwy i safleoedd tirlenwi yn y dyfodol</u>

79. Gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn trin gwastraff sydd heb ei ailgylchu mewn cyfleusterau Ynni o Wastraff erbyn hyn, yn hytrach na'i anfon i safleoedd tirlenwi.

80. O ran gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu o eiddo annomestig, rydym yn bwriadu dod â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd i rym ym mis Ebrill 2024 a ddylai arwain at ostyngiad sylweddol pellach yn y gwastraff bioddiraddadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

81. Er mwyn cynyddu ailgylchu ymhellach (gan gynnwys gwastraff bwyd), yn ychwanegol at y targed ailgylchu statudol 70% presennol ar gyfer Awdurdodau Lleol, rydym yn datblygu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu a Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd fel y nodwyd uchod. Rydym yn ystyried targedau ailgylchu statudol uwch i Awdurdodau Lleol hefyd, ac mae'r ymgyrch gyfathrebu Bydd Wych yn canolbwyntio ar ailgylchu gwastraff bwyd.

82. Rydym yn monitro faint o wastraff bioddiraddadwy o'r tu allan i Gymru sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Os na fydd lefelau'n lleihau'n sylweddol, byddwn yn ystyried cyflwyno gwaharddiad ar dirlenwi gwastraff bioddiraddadwy hefyd, neu ofyniad i'w drin cyn tirlenwi, neu gynyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer gwastraff bioddiraddadwy.

83. Sicrhau bod allyriadau presennol yn cael eu hadrodd yn gywir a chyflwyno ymyriadau newydd / gwell.

84. Mae nwy tirlenwi'n sgil gynnyrch dadelfeniad anaerobig deunydd organig mewn safleoedd tirlenwi. Mae'n cynnwys methan a charbon deuocsid ($CO_2$) yn bennaf. Mae methan yn nwy tŷ gwydr cryf sydd 28 i 36 gwaith yn fwy effeithiol na $CO_2$ wrth ddal gwres yn yr atmosffer dros gyfnod o 100 mlynedd, yn ôl yr ymchwil wyddonol ddiweddaraf.

85. Mae allyriadau o safleoedd tirlenwi'n dal i gyfrannu oddeutu 2% o gyfanswm y carbon sy'n cael ei ryddhau ar draws pob sector yng Nghymru.

86. Rydym felly'n cydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau, ac rydym wedi ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflawni'r Rhaglen Lleihau Allyriadau Tirlenwi yng Nghymru. Mae CNC yn cynnal cyfres o archwiliadau nwy tirlenwi manwl gyda'r nod o gynyddu cyfraddau cipio ac ocsideiddio/defnyddio nwy tirlenwi mewn safleoedd tirlenwi gweithredol a safleoedd sydd wedi cau yn ddiweddar. Yna bydd CNC yn nodi prosiectau seilwaith posibl neu ymyriadau polisi pellach i leihau'r allyriadau methan hyn ymhellach.

87. Rydym yn credu hefyd bod data ffaglu nwy tirlenwi'n cael ei dan-adrodd yn sylweddol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwaith i wella lefel dealltwriaeth o ffaglu nwy tirlenwi ar bob safle perthnasol, gyda'r nod o sicrhau bod allbynnau'r model Nwy Tirlenwi cenedlaethol yn cyflwyno darlun mwy cywir.

# Coedwigaeth

## Y Sefyllfa Ddiweddaraf

88. Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae angen i ni gefnogi creu 43,000 hectar o goetir erbyn 2030.

89. Gall plannu coed arwain at amrywiaeth o fanteision eraill hefyd, gan wella bioamrywiaeth, darparu cysgod i dda byw mewn tywydd poeth, helpu i atal llifogydd a darparu ffynhonnell bren i farchnadoedd lleol.

90. Ym mis Medi, cyhoeddodd Forest Research ystadegau creu coetir ar gyfer 2022-2023, a ddangosodd fod plannu coed yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol i 1,190 hectar o 620 hectar yn 2021/22 a 290 hectar yn 2020/21.

## Camau Gweithredu o Archwiliad Dwfn Coedwigaeth

91. Ym mis Gorffennaf 2021, arweiniodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd archwiliad dwfn i edrych sut i ddileu'r rhwystrau i blannu coed yng Nghymru, a sut mae defnyddio mwy o bren o Gymru wrth adeiladu. Nododd hyn 39 o gamau gweithredu, gan gynnwys cynllun ariannu newydd ar gyfer creu coetir, cynnig coeden am ddim i bawb yng Nghymru, strategaeth ddiwydiannol i gydlynu'r newid i gyflenwi pren a'r sectorau adeiladu a chyhoeddi cyfres o argymhellion ar rôl cyllid preifat wrth greu coetir.

92. Hyd yn hyn, mae 19 o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau ac mae 20 yn gamau gweithredu tymor hwy a fydd yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

93. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys datblygu offeryn asesu carbon Ystadau Cymru sydd wedi'i leoli ar Fap Data Cymru ac ymgyrch Fy Nghoeden, Ein Coedwig mewn partneriaeth â Coed Cadw a Llais y Goedwig pan gafodd 300,000 o goed eu plannu.

## Grantiau creu coetir

94. Mewn ymateb i'r archwiliad dwfn, lansiwyd cynnig creu coetir newydd ym mis Awst 2022 ac roedd yn cynnwys dau gynllun creu coetir newydd:

- Mae'r cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir eraill i annog plannu ardaloedd bychain o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu dir o werth amgylcheddol isel yng Nghymru o dan 2Ha.
- Bydd y Grant Creu Coetir yn ariannu prosiectau plannu coed mwy a/neu fwy cymhleth.

95. Mae'n rhaid i reolwyr tir sydd am dderbyn arian Grant Creu Coetir fod yn rhan o'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn gyntaf, sy'n darparu cyllid i

gynllunio coetir newydd. Roedd hwn yn argymhelliad o'r archwiliad dwfn ac mae'r cynllun yn cynnig grantiau rhwng £1,000 a £5,000 i ddatblygu'r cynlluniau. Bellach mae CNC yn ymgysylltu â thirfeddianwyr yn gynharach hefyd i annog creu coetir drwy roi cymorth cyn gwneud cais.

96. Yn fwy diweddar, ym mis Mai eleni, fe wnaethom wrando ar adborth y diwydiant a diwygio'r gyfradd dalu ar gyfer grantiau plannu coed i adlewyrchu cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant, a oedd yn gynnydd sylweddol ar y cyfraddau blaenorol.

## Adolygiad darbodus

97. Un o'r gweithredoedd o'r archwiliad dwfn oedd cynnal adolygiad sy'n cwmpasu'r prosesau creu coetir yng Nghymru yn eu cyfanrwydd. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, mae Taliadau Gwledig Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, CNC a rhanddeiliaid, wrthi'n arwain ymarferiad i nodi gwelliannau pellach y gellir eu gwneud i brosesau grant creu coetir i'w gwneud yn haws i dirfeddianwyr ymgeisio.

## Strategaeth Ddiwydiannol Pren

98. Nododd yr archwiliad dwfn o goed a phren nifer o gamau blaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddiwydiannol pren. Mae'r diwydiant pren yng Nghymru yn rhan sefydledig a gwerthfawr o'n heconomi wledig. Bu uchelgais hirdymor i ddatblygu'r sector ac rwy'n falch o fwrw ymlaen â hynny drwy ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar sut y gallwn symud tuag at gynhyrchion pren gwerth uwch a gynhyrchir yng Nghymru o bren Cymreig – y cynhyrchion hynny a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf at ein helpu i gyflawni targed sero net 2050 ac i gynyddu gwerth y sector yng Nghymru. Byddwn yn ystyried, ymhlith materion eraill, sut i sicrhau ein bod ni'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r sector, y marchnadoedd a'r gofynion cyfaint, a'r sgiliau a'r hyfforddiant sgiliau cywir ar gyfer y dyfodol.

99. Mae cyllid wedi'i ymrwymo i'r prosiect Cartrefi o Bren Lleol 2 ac mae'r holl becynnau gwaith ar y gweill. Mae'r prosiect yn gweithredu argymhellion Cartrefi o Bren Lleol 1, i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai carbon isel yng Nghymru drwy ddefnyddio pren sydd wedi'i dyfu yng Nghymru.

## Rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru

100. Rydym yn gweithio ar ddarparu Rhwydwaith a Llwybr Coedwig Genedlaethol Cymru a fydd yn creu ardaloedd o goetir newydd ac yn helpu i adfer a chynnal rhai o goetiroedd hynafol unigryw Cymru. Mae cyllid ar gael eleni a'r flwyddyn nesaf drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetir. Mae wedi bod yn boblogaidd gyda thirfeddianwyr a grwpiau

gan ei fod yn helpu i ariannu gwaith gwella, creu a rheoli coetir, a bydd hyn yn helpu i annog amrywiaeth o ddefnyddiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned i ddefnyddio'r coetir.

101. Rydym eisoes wedi ariannu 18 prosiect ledled Cymru ers 2021, yn amrywio o greu coetir mewn ysgolion i adfer coedwigoedd glaw tymherus. Mae gormod o geisiadau am y grant ac rydym yn ceisio sicrhau rhagor o ffenestri cyllido er mwyn i ni allu cyflenwi i'r eithaf. Mae chwe Swyddog Cyswllt Coetir ar waith, a chafodd y cynllun statws ar gyfer coetiroedd (nad ydynt yn goetiroedd Llywodraeth Cymru) ei lansio ym mis Gorffennaf 2023. Mae 15 cais gennym eisoes, gyda dros 70 yn yr arfaeth dros y flwyddyn nesaf. Yn ogystal â'r 14 safle dynodedig, rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod ag Ystad Llywodraeth Cymru i'r Goedwig Genedlaethol erbyn 2025, gyda 12 safle arall yn cael eu cynnwys yr hydref hwn.

Fy Nghoeden, Ein Coedwig

102. Argymhelliad yr archwiliad dwfn i gynnig coeden am ddim i bob cartref yng Nghymru. Plannwyd 300,000 o goed ledled Cymru drwy'r gwahanol opsiynau oedd ar gael (dosbarthwyd dros 34,000 gan ganolfannau; dros 33,000 drwy'r post; dyrannwyd dros 17,500 i 'blannu coeden i mi'; a phlannwyd 225,000 gan dirfeddianwyr cymunedol, cyhoeddus a phreifat).

Coetiroedd Bach / Tiny Forest

103. Ym mis Ebrill 2023, lansiwyd cynllun Coetiroedd Bach / Tiny Forest i ddarparu ardaloedd bach o goetir i gymunedau sydd â fawr ddim mynediad at fannau gwyrdd os o gwbl. Mae 5 wedi'u cyflwyno hyd yma drwy'r cynllun peilot, ac mae cymunedau wedi dangos llawer o ddiddordeb ar gyfer y rownd hon, gyda nifer dda o geisiadau'n cael eu disgwyl yn yr hydref.

Coetiroedd coffa

104. Mae gwaith ar dri safle'n mynd rhagddo'n dda, dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CNC a Chyngor Caerffili.

## Cynllun Ffermio Cynaliadwy

105. Rydym eisiau i ffermwyr fod wrth wraidd creu coetir a, thrwy hynny, ein helpu i greu Cymru sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd, sy'n gyfoethog o ran planhigion a bywyd gwyllt, ochr yn ochr â chefnogi cynhyrchu bwyd. Rydym wedi cynnig y dylai o leiaf 10% o bob fferm fod yn orchudd coed fel rhan o'r Camau Gweithredu Cyffredinol. Bydd ffermwyr yn chwarae rhan arwyddocaol wrth helpu i gyrraedd y targed coetir o 43k hectar a byddwn yn eu cefnogi i wneud hyn. Drwy ofyn i

bob ffermwr reoli'r coetir presennol ac i rai greu coetir newydd drwy'r Cynllun, byddwn yn rhannu'r baich ledled Cymru. Dylai hyn helpu i osgoi newidiadau mawr i berchnogaeth a defnydd tir ar raddfa fawr, gan helpu i gadw ffermwyr, yn enwedig ffermydd teuluol, ar y tir.

106. Yn ddiweddar, rydym wedi egluro bod coetir presennol a choed unigol mewn caeau ac mewn gwrychoedd yn cyfrif tuag at y gofyniad o 10%. Rydym yn deall hefyd nad yw plannu coed yn ymarferol ym mhob rhan o Gymru, felly byddai'r 10% yn cael ei gyfrifo ar arwynebedd eich fferm ar ôl didynnu'r rhannau hynny na ellir eu plannu. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod mwy o ffermwyr yn gallu bodloni'r 10% o ddechrau'r cynllun yn 2025. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr sydd angen neu eisiau plannu unrhyw goed ychwanegol mewn ffordd sy'n creu ased i'r fferm. Er enghraifft, drwy_blannu mwy o leiniau cysgodi a choed yng nghorneli caeau i ddarparu cysgod rhag tywydd eithafol, a rhwystrau bioddiogelwch ar ffiniau ffermydd.

## Heriau

107. Mae ansicrwydd ynghylch gofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyfraddau talu yn achosi rhywfaint o betruster i greu coetir ymhlith ffermwyr ar hyn o bryd. Mae tua 90% o'r tir yng Nghymru yn dir fferm, felly bydd gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ran bwysig i'w chwarae wrth ein helpu i gyrraedd ein targed o 43,000 hectar. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr sydd angen neu eisiau plannu unrhyw goed ychwanegol mewn ffordd sy'n creu ased i'r fferm. Ni ddylai plannu coed fod yn anodd ei gyflawni yn ei hanfod, ac mae'n sicr o fewn gallu ffermwr medrus Cymru. Mantais fawr i'r sector yw y byddwn yn ariannu'r gwaith o gyflawni targed lleihau carbon y diwydiant. Ar ôl datgan argyfwng hinsawdd, mae angen i'r diwydiant dderbyn cyfran deg o'r baich gweithredu, ac mae plannu coed ymhlith yr hawsaf o'r casgliad o opsiynau.

108. Fel rhan o ddatblygu strategaeth ddiwydiannol pren a chynllun sgiliau'r sector, mae gwaith yn parhau i archwilio camau i fynd i'r afael â phryderon am sgiliau a chyflenwad llafur, nodi marchnadoedd blaenoriaeth ar gyfer pren Cymru ym mhob maes adeiladu, ac i edrych ar rôl CNC a choetiroedd preifat wrth gyflenwi pren, a rôl cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, ysgolion a datblygwyr preifat wrth ddarparu galw sefydlog am bren Cymru.

# Llifogydd

## Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol – Cyffredinol

109. Hanfod rheoli perygl llifogydd ac arfordirol yw lleihau'r perygl i fywyd. Mae'n gwneud hyn trwy atal digwyddiadau llifogydd a/neu erydu arfordirol a fyddai, fel arall, yn achosi difrod, yn bennaf i gartrefi. Rydym wedi gwella'n ffordd o flaenoriaethu buddsoddi er mwyn helpu i dargedu cyllid tuag at brosiectau lle mae'r risg ar ei mwyaf er mwyn dangos y gwariant ataliol mwyaf effeithiol.

110. Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn egluro sut y byddwn yn lleihau risg ac yn cyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu dros y degawd nesaf.

### Effeithiau llifogydd diweddar

111. Mae newid hinsawdd yn achosi i'n tywydd fynd yn fwy eithafol. Yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni fod yn barod i wynebu pyliau hirach o law yn rheolaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf y patrymau tywydd ansefydlog drwy gydol eleni a glaw lleol mwy difrifol, prin iawn fu'r llifogydd sydd wedi effeithio ar eiddo yng Nghymru.

## Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023-24

### Refeniw

112. Eleni, byddwn yn darparu dros £41m mewn cyllid refeniw, cynnydd o bron i £5m ar gyfanswm y flwyddyn flaenorol. Bydd Awdurdodau Rheoli Risg yn defnyddio'r cronfeydd hyn i gynnal ein rhwydwaith sylweddol o amddiffynfeydd rhag llifogydd ac i barhau â'u gwaith ar hybu ymwybyddiaeth, ymchwiliadau llifogydd, rhybuddio a hysbysu, a'r adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn.

113. Eleni, rydym yn darparu cyllid refeniw o £24.5m i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), cynnydd o £2m ers y llynedd. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gynnal rhwydwaith asedau CNC ledled Cymru. Mae Awdurdodau Lleol yn elwa o gyllid ar gyfer eu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd seiliedig ar refeniw hefyd (tua £5.25m ar gyfer y flwyddyn ariannol hon).

114. Mae ein buddsoddiad yn ymwneud â mwy nag asedau ffisegol yn unig. Mae ei angen er mwyn gwella rhagolygon, mapio risg, tystiolaeth, cefnogaeth a hybu ymwybyddiaeth, ac mae'r gyllideb refeniw hon yn cefnogi hynny hefyd.

115. Bydd y cynnydd yn y gyllideb yn helpu i gefnogi ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu i ariannu amddiffynfeydd ychwanegol rhag llifogydd ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi ac i ddarparu rheolaeth llifogydd ar sail natur ym mhob dalgylch afon sylweddol.

116. Mae'r cynnydd yn y gyllideb yn ŷd-fynd â'r cytundeb cydweithredu â Phlaid Cymru hefyd i fuddsoddi mwy mewn rheoli a lliniaru llifogydd a chynllunio i ymateb i'r risg gynyddol o lifogydd.

117. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd sylweddol hwn, mae pwysau chwyddiant helaeth a phrinder sgiliau a chapasiti ar draws maes Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi rhoi straen ychwanegol ar gyllidebau ac wedi amharu ar gyflawni.

118. Y llynedd, dyblodd y cyllid refeniw i awdurdodau lleol i £225k yr un. Rydym yn falch o allu cynnig yr un lefel o fuddsoddiad eto eleni.

119. Roedd y refeniw ychwanegol yn gyfle hefyd i ymestyn y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol am flwyddyn ychwanegol a therfynol, gyda gwaith adeiladu i ddechrau erbyn mis Mawrth 2024. Eleni felly, bydd y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol yn dirwyn i ben. Bydd y rhaglen yn buddsoddi dros £200m mewn seilwaith arfordirol allweddol, gan leihau'r risg i dros 15,000 eiddo.

## Cyfalaf

120. Y llynedd, cytunwyd ar gyllideb gyfalaf tair blynedd, cyfanswm o £102 miliwn. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio ein buddsoddiad yn well o 2022-23 i 2024-25, ac i gefnogi cymunedau sydd mewn perygl.

121. Mae ein cyllid cyfalaf nid yn unig yn golygu buddsoddi mewn asedau newydd ond cynnal asedau presennol hefyd trwy waith cyfalaf cynnal a chadw yn ogystal ag ariannu gwaith hanfodol llai fel gosod telemetreg a gorsafoedd hydrometrig i gefnogi gyda gwella'r gallu i ragweld a rhybuddio am lifogydd.

122. Mater i'r Awdurdodau Rheoli Risg (Awdurdodau Lleol a CNC) yw cyflwyno cynlluniau y maent am eu cyflawni gan ddefnyddio'r gyllideb gyfalaf hon.

## Rhaglen gyfalaf 2023-24

123. Am yr ail flwyddyn, rydym yn darparu £34m o gyllid cyfalaf i'n Hawdurdodau Rheoli Risg, fel rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddiad parhaus a chyson i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

124. Rydym wedi cynyddu ein cyllid i Awdurdodau Rheoli Risg i gefnogi adnoddau ehangach ac rydym yn gweithio i asesu'r opsiynau ar gyfer defnyddio'r cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio sydd i'w gweld yn dod yn fwy amlwg.

## Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

125. Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn egluro sut y byddwn yn rheoli risg dros y degawd

nesaf. Mae'n tanlinellu'r pwys rydym yn ei roi ar risg llifogydd a'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

126. Mae'r Strategaeth yn amlinellu sut rydym yn gwneud llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull rheoli risg yn annog gwytnwch, atal ac ymwybyddiaeth ehangach o risg er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwell.

127. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn ategu canllawiau a chyngor llifogydd newydd, gan gynnwys:

a. Mapiau Perygl Llifogydd Newydd i Gymru (Asesiad Perygl Llifogydd Cymru a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunwyr).

b. Cronfa Ddata Asedau Cenedlaethol Newydd ar asedau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol sy'n eiddo i Awdurdodau Rheoli Risg neu a ddynodwyd ganddynt.

c. Gwelliannau i gynhyrchion Map Llifogydd Cymru, deall rhybuddion llifogydd a chyngor ar adeiladu gwytnwch ac ymateb i lifogydd.

d. Ariannu cynllun Rheoli Llifogydd Naturiol yn llawn, cyhoeddi canllawiau newydd i annog pobl i fanteisio ymhellach ac archwilio opsiynau cynlluniau pellach.

e. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad a'r ffordd ymlaen i sicrhau mwy o fuddion natur, amgylcheddol a chymunedol trwy systemau draenio cynaliadwy.

f. Cyhoeddodd Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru ddau adroddiad, Adnoddau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru ac Yr achos dros newid mewn deddfwriaeth a pholisi cysylltiedig ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

## Rhaglen Rheoli Llifogydd Naturiol

128. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo rheoli perygl llifogydd naturiol lle bynnag y gall ddarparu manteision gwirioneddol i gymuned. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddarparu rheolaeth llifogydd sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch afon sylweddol i ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir.

129. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau ein Rhaglen Beilot Rheoli Llifogydd Naturiol. Darparwyd mwy na £3 miliwn gennym yn ystod y rhaglen hon i leihau perygl llifogydd i dros 1,100 eiddo. Bydd yn darparu manteision ehangach hefyd megis creu cynefinoedd, gwella ansawdd dŵr, a chynorthwyo i reoli tir.

130. Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer 15 o brosiectau sy'n cael eu darparu gan ddeg Awdurdod Rheoli Risg gwahanol ledled Cymru.

131. Mae'r rhaglen hon yn cael ei hariannu 100% ac mae'n darparu gwersi rhagorol a fydd yn gwella'r ffordd o gyflawni Rheoli Llifogydd Naturiol yng Nghymru yn y dyfodol.

132. Mae swyddogion wrthi'n coladu ac adolygu'r adroddiadau terfynol, a byddant yn dechrau ar eu gwerthusiad o'r rhaglen yn fuan.

### Adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-21

133. Fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i gomisiynu adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-2021. Gwnaed y gwaith hwn gan yr Athro Elwen Evans CB ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2023.

134. Cynhaliwyd yr adolygiad fel rhan o'r cytundeb cydweithredu gyda Phlaid Cymru.

135. Mae cyhoeddi adolygiad annibynnol yr Athro Elwen Evans CB o'r broses ymchwilio i lifogydd yn gam pwysig o ran gwella sut mae rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys yr ymateb i achosion o lifogydd a'u canlyniadau, yn cael ei wneud ledled Cymru.

136. Mae'r adolygiad yn un darn pwysig o fframwaith adrodd ehangach ar reoli perygl llifogydd. Dylid ei ystyried ochr yn ochr â:

a. gwaith a chanfyddiadau eraill sydd eisoes wedi digwydd;

b. gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd; a

c. gwaith sydd eto i ddechrau, fel y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

# Terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

## Cefndir

137. Ar 15 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Grŵp Tasglu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru adroddiad yn gwneud argymhellion ynghylch newid y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya yng Nghymru. Trafodwyd yr adroddiad yn y Senedd a phleidleisiodd 45 Aelod i gefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau'r broses.

138. Ar 12 Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Senedd yr Offeryn Statudol i leihau'r terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig i 20mya o 39 pleidlais i 15.

139. Ar 11 Gorffennaf 2023, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Reoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023** i hwyluso newidiadau i arwyddion.

140. Ar 13 Medi 2023, cafodd cynnig gan y Senedd i ddiddymu'r Offeryn Statudol oedd yn cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd ei drechu o 38 pleidlais i 15.

141. Ar 17 Medi 2023, daeth y terfyn cyflymder diofyn o 20mya i rym ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru sy'n destun Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022.

142. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y terfyn cyflymder newydd hwn i leihau gwrthdrawiadau, achub bywydau a lleihau anafiadau, ac i wneud strydoedd yn fwy diogel ar gyfer chwarae, cerdded a beicio; i annog mwy o bobl i gerdded, olwynio neu feicio; i wneud cymunedau'n fwy diogel; i wella iechyd a lles; ac i leihau llygredd sŵn.

143. Mae'r terfyn 20mya newydd wedi'i gynllunio i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer newid moddol fel rhan o Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Rydym eisiau i gerdded a beicio fod yn ddewis naturiol ar gyfer teithiau byr bob dydd, gan wella iechyd a lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cyflymder traffig yw un o'r problemau mwyaf o ran gwneud i bobl deimlo nad ydynt yn gallu cerdded neu feicio yn eu cymunedau. Mewn Arolwg Omnibws Cymru gan Beaufort o fil o oedolion ym mis Tachwedd 2020, dywedodd un o bob tri y byddai terfynau cyflymder 20mya yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddent yn cerdded yn amlach, tra bod dros un o bob pump yn dweud y byddent yn fwy tebygol o feicio mwy.

144. Wrth baratoi ar gyfer dod â'r terfyn cyflymder newydd i rym, bu Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid:

- i gefnogi awdurdodau priffyrdd i baratoi, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ynghylch arfer eu pwerau i eithrio rhai ffyrdd o'r terfyn 20mya lle bo hynny'n briodol. Dyfarnwyd cyllid o £1,019,436.00 ym mlwyddyn ariannol 2021/22, £10,350,424.00 yn 2022/23 a £23,123,633 yn 2023-24;
- i wella ymgysylltiad a gorfodi, gyda chyllid ychwanegol o £600K i bartneriaeth GanBwyll i gyflwyno cyflwyniadau ar ochr y ffordd;
- i roi gwybod am y newid, gan gynnwys drwy ymgyrch amlgyfrwng i anfon taflen i bob cartref yng Nghymru yn ogystal â chasgliad o hysbysebion a gynlluniwyd gan ddefnyddio arbenigedd gwyddor ymddygiadol, a gwybodaeth am y newid ar ffurf cwestiynau cyffredin ac ar wefan Map Data Cymru.

## Y sail dystiolaeth

145. Ffurfiwyd Grŵp Tasglu 20mya Cymru ym mis Mai 2019. Nododd adroddiad y Grŵp Tasglu y deilliannau disgwyliedig o newid y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru i 20mya; a'r camau ymarferol a fyddai eu hangen i weithredu'r newid hwn yn y gyfraith. Canfu dystiolaeth ysgubol bod cyflymder is yn arwain at lai o wrthdrawiadau ac anafiadau llai difrifol; a thystiolaeth gyson bod nifer y rhai a anafwyd yn gostwng pan fydd terfynau 20mya yn cael eu cyflwyno. Mae'r adroddiad yn nodi bod buddion yn cael eu cyflawni hyd yn oed pan nad yw'r cyflymder cyfartalog yn gostwng i 20mya (mae unrhyw ostyngiad cyflymder yn arwain at ganlyniad cadarnhaol) a disgwylir i ostyngiadau cyflymder gynyddu dros amser wrth i bobl ddod yn gyfarwydd â'r terfynau is a gyrru arafach yn cael ei normaleiddio.

146. Mae Adroddiad y Grŵp Tasglu yn cyfeirio at adolygiad o'r dystiolaeth ar lai o anafiadau o ganlyniad i 20mya, a gynhaliwyd gan Dr Adrian Davis ar ran Llywodraeth Cymru yn 2018.

147. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth 20mya yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth sy'n sail i'r newid.

148. Mae'r darnau allweddol o dystiolaeth yn cynnwys:

- astudiaeth iechyd cyhoeddus a oedd yn amcangyfrif y gallai'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya arwain, bob blwyddyn, at 40% yn llai o wrthdrawiadau, arbed 6 i 10 o fywydau, a 1,200 i 2,000 o bobl yn osgoi anafiadau;
- roedd papur technegol dilynol gan y Sefydliad Ymchwil Trafnidiaeth, ym Mhrifysgol Napier Caeredin, yn rhagweld arbedion atal anafiadau, gan gynnwys yr effaith lai ar y GIG a'r gwasanaethau brys, o hyd at £92m bob blwyddyn, heb gynnwys manteision iechyd ehangach yn sgil pobl yn cerdded a beicio mwy;
- papur gan Goleg Imperial Llundain a ganfu fod ardaloedd cyfyngedig 20mya yn niwtral o ran llygredd;

- yr adroddiad monitro cyntaf o wyth ardal brawf a oedd yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn cyflymder (mae ymchwil yn dangos bod pob 1mya yn arafach y mae pobl yn teithio mewn ardaloedd trefol yn lleihau nifer y gwrthdrawiadau 6% ar gyfartaledd) a mwy o blant yn cerdded, beicio a theithio ar sgwter i'r ysgol (gydag ysgolion mewn ardaloedd 20mya yn gweld cynnydd uwch mewn teithiau teithio llesol (49% i 74%), o'i gymharu ag ysgolion mewn ardaloedd 30mya yn bennaf (49% i 67%);
- profiad o rywle arall yn y DU, er enghraifft yn Llundain, lle mae arwyddion cynnar o ddata Transport for London yn dangos gwelliannau sylweddol mewn diogelwch ar y ffyrdd ers cyflwyno terfynau cyflymder 20mya gyda gostyngiadau o 1.7-5mya ar draws y rhan fwyaf o safleoedd a arolygwyd, ac yn ardal Gororau'r Alban lle canfu prawf mewn 97 o bentrefi a threfi ers mis Hydref 2020 fod 85% o yrwyr wedi gostwng eu cyflymder 3mya, a'r gostyngiadau cyflymder mwyaf, sef 5.4mya ar gyfartaledd, yn cael ei weld mewn lleoliadau lle gwelwyd cyflymderau uwch yn y gorffennol;
- canfyddiadau o bob cwr o'r byd, gan gynnwys yn Sbaen, lle bu gostyngiad mewn marwolaethau ar ffyrdd trefol ers newid eu terfyn cyflymder yn 2021, a Datganiad Stockholm, lle penderfynodd 80 o wleidyddion a 1,700 o arbenigwyr o 140 o wledydd, ymhlith pethau eraill, ganolbwyntio ar reoli cyflymder, gan gynnwys cryfhau gorfodi'r gyfraith i atal goryrru a mandadu uchafswm cyflymder teithio ar y ffyrdd o 30 km/awr mewn ardaloedd lle mae defnyddwyr ffyrdd agored i niwed a cherbydau'n cymysgu mewn dull cyson a chynlluniedig;
- ac eithrio lle bo tystiolaeth gref yn bodoli bod cyflymderau uwch yn ddiogel, gan nodi y bydd ymdrechion i leihau cyflymder yn gyffredinol yn cael effaith fuddiol ar ansawdd aer a newid hinsawdd yn ogystal â bod yn hanfodol i leihau marwolaethau ac anafiadau ar y ffyrdd.

## Yr wythnosau cyntaf gyda'r terfyn cyflymder newydd a'r camau nesaf

149. Rydym yn cydnabod bod nifer sylweddol o bobl wedi mynegi, trwy broses ddeisebau'r Senedd ac mewn mannau eraill, eu gwrthwynebiad i'r terfyn cyflymder newydd ers iddo ddod i rym. Nid yw hyn yn annisgwyl o ystyried y farn gymysg oedd yn cael ei mynegi cyn i'r terfyn cyflymder ddod i rym, ac o ystyried maint y newid y mae hyn yn ei gynrychioli. Rydym wedi bod yn glir ein bod yn gwrando ar yr adborth ac, er na fyddwn yn gwyrdroi'r newid, rydym yn barod i fod yn hyblyg ar sut y caiff ei weithredu mewn cymunedau lleol.

150. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y newid, ond mae arwyddion cynnar, fel mewn adroddiad gan Agilysis yn ymdrin â sampl o ffyrdd, yn galonogol.

151. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau, i ddeall effeithiau'r newid yn fanylach, yn ogystal ag ystyried adborth yn ofalus gan Aelodau'r Senedd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Rydym yn adolygu cysondeb defnyddio'r canllawiau eithriadau mewn gwahanol rannau o Gymru, gyda'r bwriad o gynnig eglurhad os oes angen hynny. Mae gan

awdurdodau priffyrdd bwerau i amrywio terfynau cyflymder ar y rhwydweithiau ffyrdd y maent yn eu rheoli, gan gynnwys cyflwyno eithriadau pellach neu newid eithriadau i 20mya yn wyneb profiad, er y bydd hyn yn cymryd amser yn ymarferol oherwydd y prosesau statudol dan sylw a'r angen i gasglu tystiolaeth.

## Monitro pellach

152. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi'r fframwaith monitro ar gyfer 20mya. Mae hyn yn nodi'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a sut y bydd y data'n cael ei gasglu.
153. Ym mis Ionawr 2024, bydd y set lawn gyntaf o ddata cyflymder ôl-weithredu'n cael ei chyhoeddi. Bydd hyn yn cael ei ddilyn, erbyn Haf 2024, gan gyhoeddiad o'r canlyniadau manwl cyntaf ar gyfer chwe mis cyntaf gweithredu'r terfyn cyflymder. Bydd rhagor o fonitro ffurfiol yn digwydd yn flynyddol am y pum mlynedd nesaf.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

19 Medi 2023

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Annwyl Vaughan a Lesley,

Yn ei gyfarfod ar 13 Medi, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 a chytunodd i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth a ganlyn;

- A oes unrhyw gynlluniau'n cael eu datblygu i ddefnyddio'r pwerau newydd y mae'r Ddeddf newydd yn eu rhoi i Weinidogion Cymru;
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r pwerau newydd mewn meysydd datganoledig, neu mewn meysydd a gadwyd yn ôl a fydd yn effeithio ar Gymru; ac
- A wnewch chi rannu copi o ddadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 ac sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomy@Senedd.Wales

13 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Medi 2023 yn gofyn am atebion i gwestiynau ynghylch Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Yn abteb i cwestiynau 1 a 2, rydym yn cydnabod na wnaeth y Senedd roi ei chydsyniad i Ddeddf REUL ond gan fod Gweinidogion Cymru bellach yn gyfrifol am swyddogaethau gweithredol perthnasol, byddwn yn arfer y swyddogaethau hynny mewn ffordd gyfrifol.

Mae Gweinidogion Cymru wrthi'n ystyried canlyniadau'r pwerau newydd y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i Weinidogion Cymru gan ddatblygu cynlluniau yn unol â hynny. Rydym yn gweithio gyda'n cyd-weinidogion yn Llywodraeth y DU i ddeall eu bwriad ac unrhyw oblygiadau y gallai eu cynlluniau esgor arnynt ac effeithio ar Gymru. Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn i wneud newid arwyddocaol i'n polisi.

Wrth ymateb i Ddeddf REUL Llywodraeth y DU, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw ganolbwyntio ar faterion sydd wedi'u datganoli yng Nghymru sy'n codi yn sgil rhoi Deddf REUL ar waith. Nid ydym wedi creu mecanwaith cyffredinol i fynd i'r afael ag offerynnau sy'n ymwneud â materion o gymhwysedd a gedwir yn ôl yng Nghymru. Byddwn yn cadw golwg ar offerynnau o'r fath ac yn ymdrin â'r goblygiadau i faterion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn ôl y gofyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ateb i cwestiwn 3, ni nodwyd unrhyw offerynnau sy’n peri gofid ac sy’n gofyn i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i’w cadw, i’r graddau eu bod yn ymwneud â meysydd datganoledig.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/343/2023

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2023

Annwyl Paul,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 4 Medi ynglŷn â'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

Fel y nodir yn ein strategaeth ar yr economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, ein nod yw bod yn genedl ddiwastraff a sero net o ran carbon. Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes, sy'n rhan o'r diwygiadau ehangach i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, yn gam pwysig mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Bydd yn helpu'r sector i newid i arferion busnes mwy cynaliadwy.

Cyhoeddwyd asesiad effaith economaidd ochr yn ochr â'n hymgynghoriad ar y cyd am y Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig. Dangosodd yr asesiad nid yn unig y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol net, ond y byddai'r Gwerth Presennol Net a'r Gymhareb Cost a Budd yn uwch ar gyfer cynllun a fyddai'n cynnwys 'cynnwys popeth', gan gynnwys gwydr, o'i gymharu chynllun na fyddai'n cynnwys gwydr. Mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod dileu gwydr o'r cynllun yn cael effaith economaidd – bydd yn lleihau'r manteision economaidd o ran y refeniw a geir o'r deunyddiau, bydd yn arwain at fwy o ailgylchu ac at lai o sbwriel – ond bydd, ar yr un pryd, yn golygu y bydd canlyniadau amgylcheddol y cynllun gryn dipyn yn llai.

Mae fy swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â chynhyrchwyr a chynrychiolwyr y byd masnach yng Nghymru i drafod y gwaith o ddatblygu'r cynllun wrth inni fynd ati i bontio i economi fwy cylchol. Rydym yn cydnabod y gallai cynhyrchwyr llai yng Nghymru wynebu heriau penodol wrth addasu mewn ymateb i'r rhwymedigaethau a fydd yn gysylltiedig â Chynllun Dychwelyd Ernes ac rydym yn edrych ar amrywiaeth o ymyriadau i'w helpu. Ymhlith yr ymyriadau hynny y mae eithriadau ar gyfer cynhyrchwyr nad ydynt ond yn cynhyrchu nifer isel neu nifer cyfyngedig o gynhyrchion, ffioedd is ar gyfer busnesau llai ac, yn bwysig, eithriad ar gyfer cynhyrchwyr diodydd sy'n ailddefnyddio ac ail-lenwi er mwyn eu cymell i wneud hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor wrth i'r Cynllun Dychwelyd Ernes gael ei roi ar waith, gan gynnwys yr asesiad effaith, a fydd yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau pan gânt eu cyflwyno gerbron y Senedd.

Rwy'n anfon hwn hefyd at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2378/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Hydref 2023

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu y cafodd Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023 sy'n dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff, ei wneud ar 16 Hydref 2023.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rt Hon Rishi Sunak, MP
Prime Minister
10 Downing Street
London
SW1A 2AA

pmpost.int@no10.gov.uk

12 October 2023

Dear Rishi,

I am writing in response to the latest market update from the Crown Estate in relation to off shore wind developments in the Celtic sea.

The Welsh Government remains as committed as ever to our statutory net zero targets. We recognise the climate emergency, and we see no case for any weakening of our commitments to take action for the benefit of current and future generations. I have welcomed, and indeed share, the UK Government stated ambitions for marine renewables and the ambition for the UK to become a world leader in the floating offshore wind sector. Here, I am pleased that the UK Government has not signalled a move away from the existing commitment for 50GW of floating offshore wind by 2030.

There is a once in a generation opportunity for the essential transition to renewable energy to lead a new industrial revolution, one that will support a just transition especially for many of our coastal communities which have themselves suffered from industrial decline.

However, there is a genuine risk that this major opportunity, and the optimism within the sector, is dissipating due to the lack of progress and action to unlock investment.

In my discussions with renewable energy developers, both based in Wales and those looking to invest in the UK, the key enabling factor to unlock investment is certainty. While it is good that some progress has clearly been made on the recent spatial issues associated with the Celtic Seas, last week's technical update from the Crown Estate will do little to show investors that there is a credible long-term investment pipeline so much needed to unlock major investment decisions. The risk to the UK is that developers, uncertain as to the future development potential in the UK, will seek to utilise the existing supply chain in

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

countries that have shown the ambitions for the sector and where investment is already underway in ports and the associated supply chain.

Wales is uniquely placed to support the deployment of significant scale floating offshore wind in the Celtic Seas. Our deep water ports at Port Talbot and in West Wales have the potential to be the manufacturing, integration and maintenance ports the renewable industry is urgently seeking for the Celtic Seas. Our joint work on freeports is another major opportunity to attract new investment, transforming the regional economies, providing new markets for the steel industry and high value added manufacturing. This is a major opportunity for Wales and for the United Kingdom and greater certainty in of future development is the way to ensure that it is grasped.

The other critical infrastructure component is grid. It is recognised that the existing grid infrastructure across the Celtic Sea region is not fit for purpose and requires innovative solutions, both on and offshore, to ensure delivery of a robust and resilient system. Your support will be crucial to ensure that a long-term view is taken on anticipatory investment, not only to meet the initial 4.5GW requirement but future-proofing the system for additional seabed leasing rounds.

The action need from the UK Government is therefore clear. We need urgent clarity on the potential development pipeline for the Celtic Seas which will provide confidence to the floating offshore wind sector that the Celtic Seas will provide large scale opportunities that the sector needs to make Wales and the rest of the UK the base for investment.


If we are to make the most of that opportunity, we also need the support of the UK Government to raise the ambitions for the UK supply chain. We are in an international market where our international competitors are strengthening the local supply chain content for their renewable energy projects. We need firmer action to support the development of the supply chain and require developers to commit to UK suppliers.

Finally, it was deeply disappointing that no floating offshore wind developers bid into the latest round of Contracts for Difference. Changed market conditions mean that the structure and scope of the CfD package has to be reviewed. We cannot risk another failed auction round for floating offshore wind because that really would be disastrous for confidence in the sector.

Provided the sector can see a clear pipeline of opportunity for the Celtic Seas, with collective action to support the supply chain and a contract for difference auction which supports the new industry in its earliest stages, the outlook for Wales and the United Kingdom can be very bright indeed, as global leaders in this vital area.

Again, the Welsh Government is willing to work closely with the UK Government to share our experience with the marine energy sector, and achieve our objectives in the Celtic Sea.

Yours sincerely,



**MARK DRAKEFORD**